

**Hawdd ei Ddeall**

## **Astudiaeth Coronafeirws a Phobl ag Anableddau Dysgu (Cymru)**

**Yr hyn rydyn ni wedi ei ganfod yn rhan  
gynta'r astudiaeth rhwng Medi 2020 a  
Mawrth 2021**



**Pwy fu'n gwneud yr astudiaeth hon?**



**Ebrill 2021**

# Yr hyn rydyn ni'n wybod hyd yma o Gymru (Mawrth 2021)

## Am beth mae'r astudiaeth hon?



Mae'r astudiaeth yn edrych ar y coronafeirws (sef COVID-19) a phobl ag anableddau dysgu. Mae'n astudio'r holl DU, ond am Gymru'n unig mae'r adroddiad hwn



Fe fuom yn siarad â 149 oedolyn ag anableddau dysgu sy'n byw yng Nghymru. Roedd 7 yn byw gyda phartner, 31 ar eu pennau eu hunain (gyda neu heb gymorth) a 69 yn byw gyda'u teuluoedd. Roedd 6 mewn cynllun 'Cysylltu Bywydau' a 36 yn byw gydag eraill ag anabledd dysgu (gyda neu heb gymorth)



Rhoddodd 77 o ofalwyr teulu neu gynorthwyrwr â thâl i rai ag anableddau dysgu lluosog dwys a difrifol hefyd wybodaeth drwy arolwg ar-lein.

Roedd 71 wnaeth lanw'r arolwg yn ofalwyr teuluol ond dim ond hanner y bobl oedd yn byw gyda'r perthynas oedd ag anabledd dysgu.



Mae'r adroddiad hwn yn dweud beth ydyn ni wedi ei ganfod hyd yma.

## Pobl ag anableddau dysgu oedd wedi cael COVID-19



Roedd 67 o bobl ag anableddau dysgu wedi cael prawf COVID-19.



Roedd 10 gafodd brawf yn dweud i'r canlyniad fod yn un positif.

Dywedodd 12 arall eu bod yn meddwl iddyn nhw gael COVID-19 ond heb gael prawf.



Roedd 1 o bob 4 o'r rhai gafodd brawf positif neu'n credu iddyn nhw gael COVID-19 wedi mynd i'r ysbyty.

## Roedd llawer o'r rhai ag anableddau dysgu'n adnabod rhywun fu farw o'r COVID-19



Dyweddodd 32 o'r bobl eu bod yn gwybod am rai fu farw o'r COVID-19.

## COVID-19 a iechyd corfforol



Roedd tuag 1 o bob 4 o'r rhai ag anableddau dysgu dwys a difrifol mewn cyflwr iechyd salach nag oedden nhw cyn Mawrth 2020.



Roedd gan dros hanner y bobl (130 o bobl) gyflwr iechyd oedd yn achosi iddyn nhw ofidio am gael COVID-19.

## Gofidiau am COVID-19



Roedd y mwyafrif o'r rhai ag anableddau dysgu'n gofidio am gael COVID-19.

Roedd y mwyafrif o'r rhai ag anableddau dysgu'n gofidio mwy y gallai eu teulu a ffrindiau gael COVID-19.

Roedd 1 o bob 3 o'r rhai ag anableddau dysgu'n gofidio ynglŷn â mynd allan.

## Brechlyn COVID-19



Gall rhai ag anableddau dysgu yng Nghymru bellach gael y brechlyn COVID-19.

Dywedodd dros 8 o bob 10 o'r rhai ag anableddau dysgu y bydden nhw'n cymryd y brechlyn.

## Cymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf



Mae pobl ag anableddau dysgu'n cael llai o help gyda'u hiechyd.

Fy  
mhrwf iechyd



Dim ond 4 o bob 10 o bobl ag anableddau dysgu yn yr astudiaeth hon gafodd eu prawf iechyd blynyddol.



Cafodd apwyntiadau iechyd 1 o bob 4 o'r rhai ag anableddau dysgu eu canslo.



Daeth gweithgareddau cymunedol, cymorth dydd a seibiant i ben i bron pawb oedd ag anableddau dysgu

## Llesiant



Roedd llawer o'r rhai ag anableddau dysgu'n teimlo'n ddig neu'n rhwystredig.



Roedd llawer o'r rhai ag anableddau dysgu'n teimlo'n drist neu'n isel.



Roedd llawer o'r rhai ag anableddau dysgu'n teimlo'n bryderus neu'n gofidio.



Dywedodd gofalwyr teuluol a staff cymorth â thâl eu bod yn teimlo fod bywyd yn galed.



Dywedodd gofalwyr teuluol a staff cymorth â thâl eu bod yn methu cysgu.



Dywedodd gofalwyr teuluol a staff cymorth â thâl eu bod yn teimlo dan straen.

## Cyflogaeth



Dyweddodd 1 o bob 5 o bobl eu bod yn gofidio llawer am waith yn y dyfodol.

Dyweddodd 43 o'r rhai fu'n siarad bod ganddyn nhw swydd cyn y cyfnod clo. Dim ond eu hanner oedd yn dal i weithio.

## Ffrindiau a theulu



Roedd y mwyafrif wedi cael llai o ymwelwyr.

Doedd pobl ddim yn cael ymweld oherwydd y COVID-19.



Roedd mwyafrif y rhai ag anableddau dysgu a siaradodd â ni wedi yn cadw cysylltiad gyda'u teulu a'u ffrindiau.



Roedd mwyafrif y rhai ag anableddau dysgu a siaradodd â ni yn defnyddio'r rhyngrwyd.

## Beth sy'n digwydd nesaf?



Rydyn ni am wybod mwy am bobl ag anableddau dysgu a'r COVID-19.

Byddwn yn parhau i siarad â phobl a rydyn ni eisiau i bobl lanw ein harolwg ar-lein. Os hoffech chi ein helpu neu eich bod am wybod am yr astudiaeth, gallwch gysylltu ag:



Edward Oloidi:

E-bost: [edward.oloidi@southwales.ac.uk](mailto:edward.oloidi@southwales.ac.uk)

Ffôn: 01443 483 042

Am ragor o wybodaeth neu gyngor am unrhyw agwedd o'r astudiaeth hon, gallwch hefyd gysylltu â'r canlynol:

Tracey Drew, Pobl yn Gyntaf Cymru, [Tracey@allwalespeople1st.co.uk](mailto:Tracey@allwalespeople1st.co.uk)

Gwen Anslow, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, [gwen@allwalesforum.org.uk](mailto:gwen@allwalesforum.org.uk)

Cath Lewis, Anabledd Dysgu Cymru, [cath.lewis@ldw.org.uk](mailto:cath.lewis@ldw.org.uk)

